

# Tywysogion Cymru

Crewyr Cadw: Comics





Cyfarwyddwr Celf: Lexy Jones & Nick Price
Inciwr: Cerys Mitchell
Cynhyrchwyd gan: Turnip Starfish Limited


Wel, blant, mae'n bleser gen i gyhoeddi bod y bathdy brenhinol ar fin cyflwyno darn arian punt newydd!
Mae am i chi bleidleisio dros eich hoff dywysog o Gymru'r Oesoedd Canol. Caiff wyneb yr enillydd ei ysgythru ar y darn arian!
Live


Helô, fi fydd yn ennill wrth gwrs. Cefais fy adnabod fel Llywelyn Fawr wedi'r cwbl!
Na, taid, fi, Llywelyn ap Gruffudd, ddylai ennill. Brwydrais i yn erbyn nerth Edward I o Loegr!
Llwyddais i, Owain Glyndŵr, i uno Cymru gyfan yn erbyn un o frenhinoedd Lloegr. Fi ddylai ennill!
Beth am i chi roi cynnig ar greu argraff arnaf? Yn eich tro, dywedwch wrthyf am yr hyn a wnaethoch!
Ie, dywedwch wrthyf os cymeroch ran mewn unrhyw frwydrau. A wnaethoch gipio castell?



Llewelyn ap Iorwerth
Llywelyn Fawr
Cefais fy ngeni yn 1173 yn Nolwyddelan.
Cefais fy ngeni i deulu pwerus, sef Teulu Gwynedd.
Fy nod oedd sicrhau bod Cymru'n cael ei rheoli gan Gymry.
Cedwais y Brenin John, sef brenin Lloegr, yn hapus trwy lofnodi cytuniad.
Nododd hwnnw y byddai'r Cymry'n ymladd ar ochr y Saeson i drechu'r Brenin Wiliam I o'r Alban.
Siwan
Arglwyddes Cymru
Gwnes i hefyd briodi Siwan, sef merch y Brenin John.
Cipiais gestyll yn y de hefyd, fel Castell Cydweli a Chastell Cilgerran, sef cestyll a godwyd gan y Normaniaid, nid y Cymry.
Adeiladais fwy o gestyll cerrig nag unrhyw dywysog o 'mlaen i, fel yr un yng Nghricieth!


Bu anghytundeb rhyngof i a'r Brenin John weithiau, a chawsom ambell ffrae.
Fodd bynnag, helpodd fy ngwraig, Siwan, bob amser, i dawelu ei thad ac nid oeddem byth yn dadlau'n hir.
Penododd y Brenin John Arglwyddi'r Mers i warchod y ffin rhwng Cymru a Lloegr.
Roeddwn yn ddigon craff i adael iddynt briodi fy merched, felly ni wnaethon nhw darfu arnaf llawer ychwaith.
Cadwch nhw dan reolaeth ferched!
Iawn, Dad!
Gwnes i uno fy ngwlad.
Llwyddais i gadw Cymru ar gyfer y Cymry.
Defnyddiais ddiplomyddiaeth a doethineb i gadw fy mhobl yn ddiogel.
Dyma pam y gwnaethant fy ngalw'n
Llywelyn Fawr!


Llewelyn ap Gruffydd
Llywelyn ein Llyw Olaf
O'r eiliad y cefais fy ngeni yn 1223, roedd fy nheulu'n rhyfela.
Cafodd fy nhad, Gruffudd ap Llywelyn, ei fradychu a'i gipio...
...gan Dafydd, fy ewythr fy hun. Fe roddodd ef i'r Brenin Harri III, sef brenin Lloegr.
Cafodd fy nhad ei ddanfon i Dŵr Llundain, lle bu farw wrth geisio dianc!
Roedd fy nhaid, Llywelyn Fawr, wedi uno Cymru.
Collodd fy ewythr Dafydd yr holl bŵer hwnnw.
Treuliais flynyddoedd yn brwydro yn erbyn fy mrodyr Owain, Rhodri a Dafydd
er mwyn teyrnasu dros Wynedd ar fy mhen fy hun ac uno Cymru unwaith yn rhagor!



Erbyn 1262, roedd y Brenin Harri'n cael trafferth rheoli ei arglwyddi ei hun.
Achubais ar y cyfle i ymosod ar dir Cymru a oedd wedi'i roddi i Saeson.
Cefais gymorth gan Simon de Montfort, a oedd yn un o ddynion Harri ei hun.
Fe wnaeth y Brenin Harri III fy nghyhoeddi'n Dywysog Cymru yn 1258.
Yn 1275, priodais i Elinor de Montfort, sef nith Harri III.
Ond ni fyddai fy hapusrwydd yn para'n hir...
Pan fu Harri III farw, daeth ei fab, Edward, yn frenin.
Roedd ganddo fyddin nerthol ac fe gymerodd fy nhir er mwyn adeiladu ei gestyll.
Cefais fy lladd yn Aberedw, ar 11 Rhagfyr 1282, wrth amddiffyn fy ngwlad. Mae pobl yn fy nghofio fel tywysog olaf Cymru.


# Owain Glyndwr











Rwy'n ddyn teg a gonest. Ni allwn eistedd yn ôl a gwneud dim.
Ym mis Medi 1400, dechreuais wrthryfel yn erbyn rheolaeth Lloegr.Cesglais ddilynwyr o bob rhan o Gymru yn gyflym, gyda fy mhobl fy hun yn fy nghyhoeddi fel Tywysog Cymru.
Gwnaethom ymosod yn llwyddiannus ar Ruthun yn gyntaf,
ac yna gwnaethom ymosod ar un castell Saesnig ar ôl y llall, fel Castell Conwy yn y gogledd a Chastell Harlech yn y gorllewin.
Roeddwn yn ddoeth a ffurfiais gynghrair â dynion pwerus, sef Thomas Percy o Northumberland ac Edmund Mortimer, Iarll y Mers. Ein nod oedd rhannu teyrnas Lloegr a Chmru'n dair rhan, a llywodraethu dros y teyrnasoedd hynny mewn ffordd deg.
Gwnaethom ymladd dros ein rhyddid am ddeng mlynedd a mwy!
Roeddem mor agos at ennill, ond roedd mab Harri'n filwr gwell na'i dad. Fe dorrodd ein cyflenwadau masnachol ac arfau.
Fesul un, hawliodd y Saeson eu cestyll yn ôl ac ailfeddiannu ein tir.
Ni wnaethon nhw byth fy nal!
Ysbrydolais genedl a dod yn arwr o safbwynt fy mhobl. Brwydrais drostynt a thros eu hawliau.

# Dysgu pellach i bawb



Adnoddau addysgiadol pellach, teithiau digidol, ffilmiau treftadaeth 15 munud a syniadau ar gyfer prosiectau dysgu, yn cynnwys lliaws o gomics a gweithgareddau celf comics, ar gael ar ein gwefan: Cadw.llyw.cymru/dysgu

Dod o hyd i le i'w ymweld
**Cadw.llyw.cymru/ymweld**

Cof Cymru
Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru
**cadw.llyw.cymru/cyngor-a-chymorth/cof-cymru**

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
Rhestr enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru
**rcahmw.gov.uk/discover/list-of-historic-place-names**

Coflein - Catalog ar-lein o archaeoleg, adeiladau, treftadaeth ddiwylliannol ac arforol yng Nghymru
**Coflein.gov.uk**

Archwilio
Cofnodion Amgylcheddol Hanesyddol Cymru
**Archwilio.org.uk**

Dod o hyd i adnoddau dysgu Cadw a nifer o sefydliadau eraill celfyddydol, treftadaeth a diwylliannol ar Hwb
**Hwb.cymru**

**@CadwWales**

**@CadwWales**

**@CadwCymruWales**